# Darparu cymorth i unigolion sydd wedi cael eu gorfodi i briodi

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'ch gallu i adnabod unigolion sydd wedi cael eu gorfodi i briodi a darparu cymorth iddynt. Gall cymorth o'r fath gynnwys atgyfeiriad i asiantaeth gymorth briodol.

Mae safonau pellach yn mynd i'r afael â chynnal asesiadau risg llawn ac ymyriadau sy'n anelu at amddiffyn iechyd, diogelwch a lles unigolion o'r fath.

Cydnabyddir bod dioddefwyr priodasau dan orfod yn gallu bod yn bobl ifanc o dan 18 oed neu'n unigolion mewn perygl sydd dros 18 oed.

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr sy'n cefnogi pobl sy'n cael eu gorfodi i briodi ac sy'n profi cam-drin domestig neu drais rhywiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. arsylwi unigolion er mwyn adnabod arwyddion a all awgrymu dioddefwr posibl priodas dan orfod
2. trafod eu sefyllfa a’u hanghenion gydag unigolion mewn amgylchedd priodol a diogel
3. cyfathrebu ag unigolion mewn ffyrdd sy’n bodloni eu hanghenion a’u galluoedd, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
4. asesu gwybodaeth sydd ar gael i adnabod unigolion sy’n cael eu gorfodi i briodi, gan gynnwys:
   • arwyddion o unigolion sydd wedi’u heffeithio gan briodas dan orfod
   • nodi bel mae digon o dystiolaeth i deilyngu archwilio pellach
5. asesu risgiau i unigolion sy’n effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd a’u lles, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
6. esbonio’r opsiynau cymorth sydd ar gael, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
7. cofnodi unrhyw anafiadau a threfnu archwiliadau meddygol, lle bo hynny’n briodol
8. esbonio gofynion ynghylch cyfrinachedd i unigolion, gan gynnwys:
   • ar ba bartïon y gall fod angen gwybodaeth benodol
   • yr amgylchiadau pan y gall fod rhaid datgelu gwybodaeth.
9. archwilio opsiynau o ran ffyrdd ymlaen, gan gynnwys unrhyw agweddau ar risg, iechyd a lles, diogelwch ac amddiffyniad gydag unigolion
10. esbonio’r rhesymau dros fwrw ymlaen ag opsiynau a all fod yn groes i ddymuniadau’r unigolyn
11. troi at weithdrefnau amddiffyn plant lleol, perthnasol, pan fydd risgiau i iechyd, diogelwch a lles:
   • unigolion o dan ddeunaw oed
   • unrhyw blant a dibynyddion sy’n gysylltiedig
12. atgyfeirio unigolion sydd mewn perygl at asiantaethau priodol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
13. gweithio gyda sefydliadau eraill yn unol â gweithdrefnau priodol a threfniadau partneriaeth
14. cynnwys unigolion mewn trafodaethau ar gamau tuag at eu hamddiffyn
15.

15.1 cyfeirio unrhyw amheuon am gyflawni trosedd bosibl at yr awdurdod angenrheidiol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

16. rhoi gwybod i unigolion am eu hawliau yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau, gan gynnwys:

- eu hawl i geisio cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol
- nad oes angen cael cynrychiolaeth gyfreithiol bob amser

17. darparu cyngor i unigolion ar ddiogelwch personol, yn berthnasol i'w hanghenion

18. cadarnhau bod unigolion yn deall y ffordd ymlaen, gan gynnwys:

- y gwasanaethau a'r cymorth y gallant eu ddisgwyl
- pwy fydd yn darparu gwasanaethau a chymorth

19. cynnal cofnodion cyfredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

20. cynnal cyfrinachedd yn unol â gofynion deddfwriaethol, sefydliadol a rheoliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy’n berthnasol i’ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i’r gweithgareddau sy’n cael eu cyflawni.
2. y canllawiau, y polisïau a’r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. rôl, cylch gwaith, amcanion a gwasanaethau eich sefydliad ar gyfer cefnogi unigolion sy’n rhan o briodasau dan orfod
5. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a’ch cymhwysedd proffesiynol
6. yr amgylchiadau pan fydd angen mynd yn groes i ddymuniadau datganedig unigolion
7. pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn gwybod beth yw priodas dan orfod a phriodas wedi’i threfnu, a’r gwahaniaethau rhyngddynt
8. rôl ‘anrhydedd’ mewn priodas dan orfod a phriodas wedi’i threfnu
9. y dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth ar y rhai sy’n cael eu gorfodi i briodi
10. yr effaith ar bawb y mae priodas dan orfod wedi effeithio arnynt, gan gynnwys unigolion a dibynyddion
11. beth yw ystyr diogelu
12. y gwahanol ffyrdd y gallai plant, pobl ifanc a dibynyddion gael eu niweidio
13. pryd a sut i drafod pryderon am gam-drin gyda rhieni, gofalwyr ac aelodau teulu
14. pwysigrwydd cydnabod y gall rhieni, gofalwyr ac aelodau teulu fod yn rhan o briodasau dan orfod
15. arwyddion rhybudd a dangosyddion priodas bosibl neu briodas wirioneddol dan orfod
16. sut i asesu arwyddion a dangosyddion priodas dan orfod, gan gynnwys:
17. gwahanol fathau o gam-drin domestig a thrais rhywiol sy’n gysylltiedig â phriodasau dan orfod a’u heffaith ar unigolion
18. y mathau o wybodaeth a chymorth y mae pobl sydd wedi’u heffeithio gan briodasau dan orfod yn eu ceisio, a’u ffynonellau
19. y camau gweithredu sydd ar gael i chi pan nodir datgeliad o briodas dan orfod
20. rôl y prif asiantaethau a rhanddeiliaid allanol sy’n darparu atgyfeiriadau a chymorth i unigolion y mae priodasau dan orfod wedi effeithio arnynt yn eich ardal
21. gwasanaethau cymorth arbenigol sydd ar gael i unigolion y mae priodas dan

orfod a throseddau anrhydedd wedi effeithio arnynt

22. sut i greu amgylchedd sy'n gwneud i unigolion deimlo'n gartrefol
23. sut i gymhwyso ymarfer ystyriol o drawma yn eich maes gwaith
24. deall gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
25. sut i gymhwyso dull seiliedig ar gryfderau, dan arweiniad anghenion, yn benodol i fodloni anghenion yr unigolyn
26. gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
27. pwysigrwydd rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill yng nghyd-destun diogelwch, iechyd a lles yr unigolyn
28. yr egwyddorion sy'n rheoli pryd yr ystyrir bod pobl ifanc yn ddigon aeddfed i gydsynio i'w gwybodaeth gael ei rhannu gyda phartïon eraill
29. y gwahaniaeth rhwng rhannu gwybodaeth ar lefelau unigol, sefydliadol a phroffesiynol
30. partïon eraill y mae angen gwybodaeth arnynt, ac sydd â hawl i wybodaeth, pa wybodaeth y mae ganddynt hawl i'w chael a phryd
31. sut mae agweddau'n gysylltiedig â diwylliant, cymdeithas a rhywedd yn effeithio ar gam-drin domestig a thrais rhywiol
32. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
33. pwysigrwydd meithrin ffydd ac empathi gydag unigolion, a dulliau o wneud
34. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion unigolion
35. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o'u goresgyn
36. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd a'ch credoau eich hun a'r effaith y gallant ei chael
37. ut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny

## Geirfa